Community Lives Consortium

Supporting people to live the life they choose

# Lower Lodge




# Hydref 2024

**Consortiwm Bywydau Cymunedol, 24 Heol Walter, Abertawe SA1 5NN**


*'Mae'r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' f8*

| Section 1: About the provider | |
|---|---|
| **Darparwr Gwasanaeth** | Consortiwm Bywydau Cymunedol |
| **Endid Cyfreithiol** | Rydym yn Gwmni Elusennol |
| **Prif Weithredwr** | Rick Wilson |
| **Unigolyn Cyfrifol** | Lynda Rosselli |
| **Rheolwr y Gwasanaeth** | Ellen Lewis |
| **Enw'r Gwasanaeth** | Lower Lodge |
| **Enw'r Gwasanaeth** | Lower Lodge<br>**Cyfeiriad y Gwasanaeth** Lower Lodge, Melin Cadle, Abertawe SA5 4NN |


*'Mae'r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' f8*

## Adran 2: Disgrifiad o leoliad y gwasanaeth

### Ynglŷn â Lower Lodge a Woodlands - Lleoliad a Llety

Mae Lower Lodge yn wasanaeth cymorth Seibiant 24 awr sy'n rhoi cyfleoedd i deuluoedd gael seibiant rheolaidd oddi wrth eu cyfrifoldeb gofalu.

Mae pob gwasanaeth Seibiant a gynigir yn bwrpasol ac wedi cael ei gomisiynu'n unigol. Y dyraniad cyfartalog yw 42 noswaith y flwyddyn i bob unigolyn.

Mae un aelod staff o leiaf ar ddyletswydd bob amser yn ystod y dydd, ac yn y nos bydd y cymorth yn amrywio yn ôl angen asesedig yr unigolyn.

Mae Lower Lodge yn eiddo dau lawr sy'n perthyn i Gymdeithas Coastal Housing. Lleolir Cadle ar ymyl Coetiroedd Cadle. Mae mynediad i'r eiddo ar hyd lôn sydd heb ei mabwysiadu. Mae wal a gât o flaen yr eiddo. O flaen yr adeilad mae dreif tarmac ac adnoddau parcio ar gyfer deg cerbyd. O flaen ac ar ochr yr adeilad mae gasebo pren gyda nifer o fannau eistedd ynghyd â phatio. Mae nifer o blanhigion yn y gwelyau blodau, basgedi crog a gardd lysiau o flaen yr eiddo, ynghyd â nodwedd dŵr. Mae gardd synhwyraidd fechan yn cael ei datblygu. Nid yw'r gwasanaeth yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn.

Ar yr un safle, mae gwasanaeth dydd Woodlands. Mae hwn yn adeilad wedi'i addasu'n llawn, a ddefnyddir gan amrywiaeth o unigolion fel canolfan ble gall pobl fwynhau pecynnau gofal dydd a drefnir yn unigol. Mae nifer o'r unigolion sy'n derbyn seibiant yn Lower Lodge yn mwynhau cymorth yn ystod y dydd hefyd yng ngwasanaeth dydd Woodlands.

Mae'r lleoliad lled wledig yn cynnig amgylchedd diogel i'r bobl a gefnogwn ac mae'r ddau eiddo wedi'u hamgylchynu â ffens bren sy'n golygu y gall y bobl hyn gael mynediad diderfyn i'r ardd. Mae hyn yn arbennig o bwysig gan fod gan lawer o'r oedolion ifanc a gefnogwn anhwylderau sbectrwm awtistig ac maen nhw'n mwynhau cael man lle gallan nhw symud o gwmpas yn rhydd.

Gan ei fod mor agos i goedwig dyffryn Penllergaer, gall y bobl a gefnogwn fynd am dro a mwynhau harddwch naturiol yr ardal. (Mae dillad tywydd gwlyb ar gael i'r unigolion fel y gallant fwynhau'r gweithgaredd hwn drwy gydol y flwyddyn).
Mae'r ardal yn darparu cyfleoedd i fwynhau gweithgareddau cymunedol fel: troeon yn y wlad, siopa a mynd i gaffis, tafarnau a bwytai lleol.

Mae Cadle yn cynnwys tair ystafell wely seibiant. Mae dwy ar y llawr gwaelod gyda mynediad i ystafell wlyb a thoiled ar yr un llawr. Mae un ystafell ar lawr cyntaf yr eiddo i fyny'r grisiau, mae ystafell ymolchi fawr wrth ochr yr ystafell wely.

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru ar gyfer Oedolion ag Anabledd Dysgu.

Nid yw'r cartref wedi'i gofrestru i ddarparu gofal nyrsio er y gellid gwneud trefniadau i nyrs ardal alw i ymweld pan fod angen.
**Rydym yn gweithio yn ardal bwrdd partneriaeth ranbarthol Bae'r Gorllewin**



# Adran 3 Ynglŷn â'r gwasanaeth a ddarperir

## Ynglŷn â'r amrywiaeth o anghenion y gallwn eu cefnogi

Ar hyn o bryd mae Lower Lodge a Woodlands yn darparu cymorth i unigolion dros 18 oed dan yr amodau canlynol:

- Unigolion ag Epilepsi:
  - Rydym yn darparu amrywiaeth o offer Technoleg Gynorthwyol sy'n helpu i'n rhybuddio am strociau a phatrymau strôc. Bydd pob unigolyn yn cael cynllun Cyngor Epilepsi Ar y Cyd (JEC). Mae'r staff wedi'u hyfforddi mewn epilepsi ac i ddefnyddio meddyginiaeth triniaeth achub, cynlluniau gofal ac asesiadau risg.
- Unigolion ag Awtistiaeth:
  - Mae'r staff wedi'u hyfforddi mewn Anhwylderau Sbectrwm Awtistig ac yn derbyn hyfforddiant sy'n canolbwyntio ar y person i unigolion cyn iddynt wasanaethu gyda ni.
- Unigolion ag Anabledd Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu:
  - Mae hyfforddiant staff pwrpasol yn cael ei gynnal i gynnwys diagnosis ar y cyd e.e. deubegwn, gorbryder ac OCD.
- Unigolion â PICA:
  - Mae'r staff wedi cyflawni'r hyfforddiant perthnasol ac mae cynlluniau cymorth yn eu lle sy'n caniatáu i'r tîm reoli'r unigolyn yn ddiogel.
- Unigolion ag Ymddygiad Heriol:
  - Mae staff wedi ymgymryd â hyfforddiant mewn Cymorth Ymddygiadol

Cadarnhaol (PBS) a Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol.

Pan fod angen i ni ddarparu'r gwasanaethau hyn, bydd ein staff yn cael eu hyfforddi gan weithwyr iechyd proffesiynol cymwysedig. Yn Lower Lodge a Woodlands rydym yn ymrwymedig i ddarparu cymorth i amrywiaeth eang o bobl.

**Pa Anghenion y gellir eu bodloni yn y Gwasanaethau hyn?:**

Ar wahân i'r rhestr o gyflyrau a gefnogwn ar hyn o bryd, byddwn yn ystyried pob atgyfeiriad cyhyd bod ganddynt ddiagnosis o Anabledd Dysgu.

- Gallwn ddarparu arosiadau seibiant ar gyfer hyd at 3 pherson ar unrhyw adeg benodol (byddwn yn ystyried a fydd unigolion yn gallu cyd-dynnu).
- Byddwn yn ymgynghori ag unigolion, aelodau teulu a rhanddeiliaid perthnasol ac yn eu gwahodd i gyfrannu at y broses asesu a chynllunio.
- Trefnir ymweliadau rhagarweiniol cyn cymorth dydd neu arhosiad nos cyntaf yr unigolyn (mae'r rhain yn digwydd am 4 wythnos o leiaf).
- Byddwn yn rhoi hyd at 42 noson o seibiant y flwyddyn i unigolion
- Gallwn ddarparu staff gwrywaidd a benywaidd yn ôl dewis ac angen yr unigolyn (cyflawnir hyn drwy reoli rota cynlluniedig yn ein system Roster Gofal yn y Cartref).
- Gallwn gynnig cymorth gyda phob agwedd o ofal personol (bydd cynlluniau cymorth ac asesiadau risg yn cefnogi hyn).
- Byddwn yn darparu cymorth i bobl sy'n dangos ymddygiadau heriol (bydd Cynlluniau Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol ac Asesiadau Risg yn cael eu teilwra'n arbennig i'r unigolyn a'u dilyn).
- Byddwn yn cefnogi pobl i gael mynediad at eu gwasanaethau dydd (boed yn cael ei ddarparu gan y gwasanaeth Coetiroedd ai peidio) yn ystod eu harhosiad gyda ni (mae cludiant i ac o'r gwasanaeth ar gael os oes angen).
- Byddwn yn canfod ac yn cynnal hyfforddiant perthnasol ar gyfer yr holl staff wrth weithio gydag unigolion newydd.

a) **Byddwn yn cefnogi pobl o ba oed? ---** **18 oed a thrososdd**

b) **Faint o bobl fyddwn ni'n eu gwasanaethu ar yr un pryd? Capasiti Seibiant Mwyaf: 3**

c) **Faint o bobl fyddwn ni'n eu gwasanaethu ar yr un pryd? Capasiti Seibiant Mwyaf: 3**

ch) **Sawl awr o gymorth byddwn ni'n eu darparu mewn wythnos nodweddiadol? Seibiant: 251-500**



*'Mae'r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' f8*

## Adran 4: Sut ydyn ni'n darparu ein gwasanaeth?

**Trefniadau ar gyfer asesu, cynllunio ac adolygu gofal pobl**
Pan ddaw atgyfeiriad ar gyfer person newydd sy'n derbyn cymorth, cynhelir nifer o gyfarfodydd gyda'r rheolwr gofal, perthnasau, cynrychiolwyr y Consortiwm Bywydau Cymunedol ac unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol eraill, a fydd yn ymweld â'r eiddo i asesu ei addasrwydd.

Byddwn yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill wrth gynnal yr asesiadau cyd-dynnu a'r cynllun gofal personol. Bydd unigolion yn cael cyfleoedd i gyfarfod eu staff cymorth a phobl eraill sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Byddan nhw'n cael Cynllun sy'n Canolbwyntio ar y Person a fydd yn cynnwys y canlynol:

- Bydd aelod o staff yn ymweld â nhw yn eu cartref eu hunain i ddweud wrthynt am y seibiant a rhoi copi o'n Canllaw Gwasanaeth iddynt.
- Bydd y teulu'n cael ei gynnwys wrth ddyfeisio cynlluniau cymorth.
- Bydd yr unigolyn a'i aelodau teulu yn cael gwahoddiad i ymweld â'r gwasanaeth i gyfarfod staff ac edrych o gwmpas y meddiannau.
- refnir ymweliadau rhagarweiniol i'r meddiannau.
- ydd staff y Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cysylltu â'r teulu i fwcio'r arhosiad seibiant neu'r pecyn dydd cyntaf.

Bydd cyfarfodydd adolygu rheolaidd yn cael eu cynnal yn ystod y cyfnod “Dod i'ch Adnabod Chi” gydag adolygiad ffurfiol ar ôl yr arhosiad seibiant cyntaf neu'r wythnos o wasanaeth dydd.

**Beth yw ein Meini Prawf Mynediad?**
- Atgyfeiriad gan yr Awdurdod Lleol
- Anabledd Dysgu fydd y Prif Gyflwr
- Mae’r unigolyn wedi’i asesu’n ddiweddar gan yr Awdurdod Lleol, ac mae’r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cyfeirio at ei Bolisi Derbyn a Cychwyn lle bo’n berthnasol.
- Mae'r unigolyn yn 18 oed neu'n hŷn

.

**Rheolwyr Gofal**
Mae pob unigolyn sy'n derbyn cymorth yn gallu cysylltu â Rheolwr Gofal Awdurdod Lleol neu gellir cysylltu â rheolwr gofal ar ddyletswydd yn absenoldeb Rheolwr Gofal. Mae hwn fel arfer yn Weithiwr Cymdeithasol o'r Tîm Cymorth Cymunedol yn Abertawe.

Bydd Rheolwr Cartref Gofal Cofrestredig yn gwahodd y Rheolwr Gofal i gymryd rhan yn adolygiadau 3 mis yr unigolyn o'u cynllun personol.

Mae Rheolwyr Gofal yn gyfrifol am adolygu cynlluniau cymorth seibiant a chynlluniau cymorth dydd unigolion yn flynyddol mewn partneriaeth â'r Consortiwm Bywydau Cymunedol.

Mae Rheolwyr Gofal hefyd yn cyfrannu at ddatblygu asesiadau sy'n canolbwyntio ar Ganlyniadau a fydd yn llywio cynllun gofal pwrpasol eu hunigolyn.

Mae Tîm Anabledd Dysgu Abertawe ar gael fel rhwydwaith ehangach i ddarparu cymorth i unigolion, fel:

- Bwyta ac Yfed â Chymorth {SALT}: I ddarparu cymorth i unigolion sydd ag anawsterau wrth lyncu a rhwystrau wrth fwyta ac yfed.
- Nyrs Gymunedol {yn arbenigo mewn anableddau dysgu}: I ddarparu cymorth gyda newidiadau mewn ymddygiad/iechyd/meddyginiaeth/cyngor ar anghenion gofal.
- Therapydd Galwedigaethol: I ddarparu cymorth ac offer at ddibenion symudedd.
- Ffisiotherapydd: I ddarparu cymorth ar ymddaliad/adferiad.
- Therapyddion Lleferydd ac Iaith: I ddarparu cymorth ar gyfathrebu dwys/technegau cyfathrebu a goresgyn rhwystrau i gyfathrebu.
- Seiciatrydd: I ddarparu cymorth ar iechyd meddwl a lles/meddyginiaeth ac adolygu anghenion iechyd.

## Safon gofal a chymorth

### Bod mor gorfforol, meddyliol ac emosiynol iach â phosibl

Mae safon y gofal yn Lower Lodge yn cael ei fonitro gan Reolwr Ardal o Gonsortiwm Cymunedau Bywydau Cymunedol sy'n ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd.

Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn cynhyrchu adroddiad Sicrhau Ansawdd a roddir wedyn i'r Bwrdd Ymddiriedolwyr. Bydd yr Unigolyn Cyfrifol hefyd yn ymweld â'r gwasanaeth bob tri mis i asesu ansawdd y gwasanaeth a chyfarfod unigolion sy'n ei ddefnyddio. Mae ymweliadau Contract a Monitro Awdurdod Lleol yn digwydd, anfonir adroddiadau o'r ymweliadau hyn at y Rheolwr Ardal a'r Rheolwr Cartref Gofal Cofrestredig.

Bydd unigolion yn cael eu cefnogi i fod yn iach yn gorfforol, yn feddyliol ac yn emosiynol drwy sicrhau bod eu cynlluniau gofal yn adlewyrchu cyflyrau iechyd a lles parhaus. Bydd unigolion yn cael eu cefnogi i weld eu meddyg teulu a mynychu unrhyw

apwyntiadau meddygol yn ystod eu harhosiad seibiant. Bydd unigolion yn cael eu cefnogi i fod yn ddiogel yn ystod eu harhosiad seibiant drwy sicrhau bod asesiad risg amgylcheddol yn cael ei gynnal fel rhan o'u gweithdrefn dderbyn. Bydd y cynllun yn ystyried unrhyw addasiadau i safle’r dodrefn yn eu hystafell wely a'r mannau cymunol.

Bydd asesiad risg o berygl tân a chynllun ymgilio personol yn eu lle yn ystod arhosiad seibiant yr unigolyn a'u defnydd o adeilad Woodlands. Mae ein staff wedi'u hyfforddi mewn Diogelu ac mewn Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol.

**Cynnal perthnasoedd teulu a phersonol**

Byddwn yn cefnogi unigolion yn ystod eu harhosiad yn Lower Lodge i gysylltu â'u perthnasau drwy ddefnyddio’u dull dewisol o gyfathrebu e.e. ffôn, testun, negesydd, ‘whatsapp’ neu ‘facetime’. Mae ffonau ac iPads ar gael i gefnogi hyn.

**Bod a theimlo'n ddiogel**

Rydym yn ymrwymedig i gadw'r unigolyn yn ddiogel a byddwn yn gwneud hyn drwy:

- weithio o fewn ein Polisi Diogelu a chydymffurfio â gweithdrefnau Diogelu’r Awdurdod Lleol.
- hyfforddi ein holl staff mewn Diogelu ac ar sut i adnabod ac adrodd am amheuon a honiadau o gam-drin.
- gweithio o fewn ein Polisi Cyllid. Bydd y staff a'r rheolwyr yn eich cefnogi i reoli eich arian i leihau'r risg o gam-drin ariannol ac ecsbloetio.
- darparu copi o'n gweithdrefn gwyno a chanmol mewn fformat hygyrch.
- gweithio o fewn ein Polisi Iechyd a Diogelwch i hybu cartref a gweithle diogel ac iach i chi a'ch staff. Bydd hyn yn cynnwys archwiliadau iechyd a diogelwch rheolaidd.
- darparu cynlluniau cefnogi/asesu risg personol i ddarparu ar gyfer anghenion unigol sy'n cael eu hadolygu a'u diweddaru pan fod angen.
- sicrhau bod asesiadau Technoleg Gynorthwyol yn cael eu cynnal i ddarparu cyfarwyddyd, gwybodaeth ac offer wedi’u teilwra'n arbennig i anghenion unigol er mwyn hybu diogelwch. Mae hyn yn cynnwys synwyryddion ar ddrysau, synwyryddion epilepsi, monitorau symudiad ac ati.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau, hobïau, diddordebau unigol a mynediad at gyfleoedd datblygu**

Anogir unigolion i ddatblygu eu hoff weithgareddau, digwyddiadau a hobïau. Byddwn yn cynnig cyfle iddynt brofi gweithgareddau newydd yn ystod eu harhosiad seibiant.

Byddwn yn dyfeisio cynllun addysgu fel rhan o'r cynllunio ar gyfer arhosiad


*‘Mae’r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio’ f8*

seibiant neu raglen yn ystod y dydd unigolyn.

Rydym yn hybu dysgu a datblygu cyfleoedd trwy:

- ddarparu cyfleoedd gofal dydd fel y cytunwyd yn eich cynllun.
- eich helpu i gyrraedd eich Colegau a Chanolfannau Dydd.
- cynnig cyfleoedd drwy TGCh a'r Cyfryngau Cymdeithasol.

## Anghenion iaith a chyfathrebu ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

## Cynnal eich cyfathrebu, iaith a diwylliant

**Cyfathrebu cynhwysol**
Rydym yn hybu ac yn defnyddio'r 'Model Cyfathrebu Cynhwysol' i gyfathrebu yn yr iaith a'r dull sydd fwyaf priodol i chi. Gallai hyn gynnwys cyfieithu, lluniau, arwyddion, cardiau fflachio, amlgyfryngau, gwrthrychau cyfeiriol ac ati.  Mae'r holl staff wedi'u hyfforddi yn y dull hwn. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â therapyddion lleferydd ac iaith i gynnal asesiadau a datblygu cynllun cyfathrebu unigol i chi.

Mae hyn wedi'i ymgorffori yn y cyfnod pontio lle byddwn yn trafod eich dewisiadau o ran cyfathrebu a diwylliant a byddwn yn adlewyrchu hyn yn eich canlyniadau trwy gynlluniau cymorth unigol.

## Iaith a Diwylliant Cymreig

Mae gan Gonsortiwm Bywydau Cymunedol Bolisi Iaith Gymraeg sy'n sicrhau bod pob unigolyn yn gallu derbyn cefnogaeth trwy gyfrwng y Gymraeg.

Gallai hyn gynnwys;

- rhoi gwybodaeth hygyrch i chi am y sefydliad a'ch cymorth yn y Gymraeg.
- cynnal cyfarfodydd ynglŷn â'ch cymorth yn y Gymraeg e.e. adolygiadau gwasanaeth
- sicrhau bod staff a rheolwyr yn cyfathrebu ac yn cynnal sgyrsiau â chi a'ch cefnogwyr yn Gymraeg
- defnyddio allweddeiriau a brawddegau Cymraeg sy'n bwysig i chi
- arwyddion Cymraeg yn y cartref e.e. toiled, ystafell ymolchi
- cadw cofnodion amdanoch chi a'r gwasanaeth a dderbyniwch yn Gymraeg os mai dyna yw eich dewis iaith
- gwirio p'un ai fod ymwelwyr i'ch cartref a gweithwyr proffesiynol eraill yn gallu cyfathrebu â chi yn y Gymraeg e.e. Meddygon Teulu, Rheolwyr Gofal
- sicrhau bod cyfryngau Cymraeg o'ch dewis ar gael i chi (e.e. teledu, rhaglenni radio, llyfrau, papur newydd, aps cyfrifiaduron)
- eich cefnogi i ddysgu neu wella eich sgiliau Cymraeg fel un o'ch deilliannau personol

Byddwn hefyd yn eich asesu a'ch helpu i gymryd rhan mewn gweithgareddau a digwyddiadau iwylliannol Cymraeg sy'n bwysig i chi e.e.

- gemau Rygbi Cymru
- Eisteddfodau
- Dydd Gŵyl Dewi
- Gwrando ar Gorau Meibion

**Diwylliant**
Fel rhan o asesiad yr unigolyn ar gyfer cymorth, byddwn yn ei helpu i archwilio agweddau o'i ddiwylliant personol ac unrhyw gredau crefyddol sy'n bwysig iddo. Byddwn yn cynllunio unrhyw gymorth sydd ei angen arno i fynegi ei hunaniaeth ddiwylliannol bersonol ac i ddilyn arferion crefyddol e.e.

- ei gefnogi i fynychu man addoli
- caiff bwydlenni eu cynllunio yn unol ag anghenion deiet arbennig
- mae dewisiadau gofal personol yn cael eu parchu
- cefnogi'r unigolyn gyda'r dillad o'i ddewis.

Byddwn yn helpu unigolion i gael mynediad at gyfieithydd os nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

## Adran 5: Trefniadau staffio

**Niferoedd a chymwysterau'r staff**

**Rick Wilson - Prif Weithredwr**
**Cymwysterau:** CQSW, BSc (Econ), MSc, Cymhwyster CQSW mewn Gwaith Cymdeithasol. Ar hyn o bryd mae'n gweithio ar gyfer Diploma Proffesiynol BTEC Uwch mewn Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol

**Lynda Rosselli – Unigolyn Cyfrifol**
**Cymwysterau**:

- NVQ Lefel 4 Gofal, NVQ Lefel 4 Rheolaeth, Dyfarniad
- Aseswr D32/33
- Diploma Proffesiynol BTEC Uwch mewn Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol
- Rheolwr Cofrestredig gydag AGGCC a Gofal Cymdeithasol Cymru ers 21/12/2007

**Michelle Thomas - Reolwr Ardal (Ardal 2)**
**Cymwysterau** - QCFL Lefel 5 Gofal, dyfarniad Aseswr TACA, Tystysgrif


*'Mae'r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' f8*

Tystysgrif addysgu ôl-raddedig a sgiliau hanfodol Achrededig
Hyfforddwr gyda PABM ar gyfer Rheoli Ymddygiad Positif.
Wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru Allwedd Trin Pobl ac Asesu Risg.
Tystysgrif Hyfforddwr gan wasanaethau Edge Training.
Wedi cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru

**Trosolwg o'r Rheolwr a Thîm y Staff:**

1 Rheolwr Cofrestredig: Diploma FfCCh Lefel 5, Arweinyddiaeth
mewn Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol.
11 aelod o Staff Cymorth

**Lefelau staff**
**Ymagwedd sy'n canolbwyntio ar y person ar gyfer gwasanaeth wedi'i deilwra'n arbennig**

- Mae swm yr oriau a lefel y cymorth sydd eu hangen arnoch yn cael eu hasesu'n unigol. Wedyn byddwn yn datblygu cynllun i fodloni eich anghenion ar gyfer cymorth dydd a nos.
- Mae rota ar gyfer dyrannu staff i'ch cefnogi yn cael ei drefnu ar sail y cynllun hwn. Er enghraifft byddwn yn ystyried cymhareb cymorth staff o 1-1 neu 2-1 ac unrhyw ofynion ar gyfer staff hyfforddedig ac o ryw penodol fel y bo'n berthnasol.
- Gallwn yn y rhan fwyaf o achosion gynnwys trefniadau cludiant o'ch cartref i'r Gwasanaeth Seibiant a Dydd ac ar ôl eich arhosiad gallwn eich cefnogi i'ch gwasanaeth dydd (os nad Coetiroedd), os oes angen.

**Staff**

- Byddwn yn sicrhau bod gan staff a rheolwyr yr hyfforddiant, sgiliau a'r wybodaeth ofynnol i'ch cefnogi'n effeithiol ac yn ddiogel gan fodloni unrhyw anghenion cymorth arbenigol sydd gennych.
- Mae Seibiant Lower Lodge yn darparu gofal a chymorth 24 awr trwy gydol y flwyddyn yn cynnwys gwyliau banc ac yn ystod gŵyl y Nadolig.
- Mae'r Consortiwm yn dirprwyo'r cyfrifoldeb o sicrhau bod cefnogaeth staff yn cael ei ddarparu ar y maint, amlder a chymhareb gywir i Reolwr y Cartref Gofal Cofrestredig ar gyfer y gwasanaeth.
- Rydym yn cadarnhau'r sifftiau yn wythnosol, ac yn cynhyrchu adroddiad ar yr oriau a gyflenwyd. Rydym yn cwblhau Log Cyflenwi Oriau Seibiant at ddibenion bilio ac at ddibenion monitro gan Reolwyr Gofal neu sefydliadau Comisiynu.

- Bydd y Rheolwr Cartref Gofal Cofrestredig yn cynhyrchu rotas staff wythnosol o leiaf 4 wythnos ymlaen llaw. Lle bo modd, bydd yr unigolion hyn a gefnogwn yn sicrhau bod y rotas hyn ar gael iddynt mewn fformat hygyrch.

Bydd Rheolwr y Cartref Gofal Cofrestredig yn cwblhau log wythnosol sy'n arwain at daflen amser fisol wedi'i chwblhau trwy Roster ar ddiwedd pob mis.

Mae hon yn dangos yr oriau unigol a weithiwyd gan bob aelod staff hefyd: gwyliau a fwciwyd, hyfforddiant a fwciwyd, cyfarfodydd ac unrhyw absenoldeb oherwydd salwch. Defnyddir hyn i fonitro absenoldebau yn unol â'n polisi Absenoldeb a Salwch.

Am y manylion llawn, dylech gyfeirio at ein polisi ‘Rheoli Rotâu’.

- Ni fydd disgwyl i'r bobl a gefnogwn arwyddo unrhyw system taflenni amser i gadarnhau presenoldeb staff. Bydd taflenni amser yn cael eu hawdurdodi gan y rheolwr dynodedig.

Mae'r Consortiwm yn cydnabod pa mor bwysig yw hi fod gan y bobl a gefnogwn bobl maen nhw'n eu hadnabod ac y gallant ymddiried ynddynt i'w cefnogi. Pan fod staff naill ai'n sâl neu'n mynd i fod yn absennol am gyfnod, mae gan y Consortiwm weithdrefnau a pholisi yn eu lle i sicrhau parhad.

Yn gyntaf, bydd y Rheolwr Cartrefi Gofal Cofrestredig yn ceisio ymdrin â salwch ac absenoldebau eraill trwy ddefnyddio staff sydd eisoes yn gweithio gyda phobl yr ydym yn eu cefnogi, fel y'u rhestrir yn y canllaw Defnyddiwr Gwasanaeth.

Lle nad yw'r staff hyn ar gael, defnyddir staff achlysurol/asiantaethol rheolaidd, dylai'r bobl yr ydym yn eu cefnogi fod yn hysbys iddynt eisoes a dylent hefyd fod wedi'u rhestru yn y Canllaw Gwasanaeth.

Rydym yn gallu bod yn greadigol a chysylltu â'n rheolwyr wrth ddefnyddio staff eraill yn ein Ardal.

Y tu allan i oriau - Gall staff gyrchu ein system ‘Ar alwad’ a ddarperir gan 1 Rheolwr profiadol gyda’r nos neu ar benwythnosau i gysylltu ag ef mewn perthynas ag argyfwng. Gallant gael cefnogaeth, cyngor a chyfarwyddyd ychwanegol ynghylch lefelau staffio gan Reolwyr Ardal. Wrth wneud hyn, mae staff yn dilyn ein Polisi Ar Alwad / Ymateb.

Mewn amgylchiadau eithafol bydd staff yn cael eu symud o wasanaethau eraill neu o'r asiantaeth ehangach.

**Staff arbenigol**

Mae'r Uwch Reolwr Ardal yn Hyfforddwr Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol cymwys.

**Staff Structure**

**Cadle**

**Rick Wilson**
**Prif Weithredwr**

↓

**Lynda Rosselli**
**Unigolyn Cyfrifol**

**Michelle Thomas**
**Reolwr Ardal**

↓

**Ellen Lewis**
**Rheolwr Cartref Gofal Cofrestredig**

↓

**Staff Cymorth**

Rydym yn defnyddio system rheoli rotâu ar-lein o'r enw'r Roster Gofal yn y Cartref. Mae hon yn caniatáu i ni greu amserlen o sifftiau Cymorth sy'n bodloni anghenion pob unigolyn. Rydym yn bwcio staff i'r sifftiau sydd heb eu dyrannu a gynhyrchir gan yr amserlen. Pan fydd yn gyflawn, rydym yn rhoi copi i'r uned Seibiant ac i'r aelod staff bob wythnos.

Mae Lower Lodge yn darparu gofal a chymorth 24 awr trwy gydol y flwyddyn, yn cynnwys gwyliau banc a gŵyl y Nadolig, felly gallwn fod yn rhesymol ac yn hyblyg wrth fodloni eich anghenion Arhosiad Seibiant.

Yn aml, mae Lower Lodge yn darparu cymorth ar yr amserau hyn:

- Ar y Penwythnos - 2il staff ychwanegol 11.00 - 14.00 ar gyfer mynediad i'r gymuned - hyblyg i anghenion
- Oriau Dydd ar y Penwythnos - 15.30 casglu o'ch Gwasanaeth Dydd gan ddarparu cludiant i'r Seibiant

- Cymorth Prynhawn - rhwng 15.30 a 22.00.
- Staff effro - 22.00 tan 08.30 ar y diwrnod canlynol.
- Gellir galw’r staff cysgu i mewn rhwng 22.00 a 07.00 yn achos argyfwng

Gall y staff gael copi unigol o'u patrymau sifftiau ar gyfer yr wythnos a lle bo'n ymarferol, gallwn ddyrannu staff i unigolion penodol yn ôl yr anghenion cymorth a'r set o sgiliau.

**Trefniadau ar gyfer tasgau dirprwyedig**
Pan fod angen tasgau gofal iechyd arbenigol, e.e. gweinyddu Buccolam Midazolam (neu feddyginiaeth achub arall), bydd gweithwyr iechyd proffesiynol allanol perthnasol yn arwain yr asesiadau risg a'r cynllunio cymorth cyn i'r tasgau hyn gael eu dirprwyo i staff.

Gallai hyn gynnwys hyfforddiant arbenigol, cyngor, cyfarwyddyd a monitro a ddarperir gan weithiwr iechyd proffesiynol allanol e.e. Nyrs Epilepsi. Byddwn yn cysylltu â'n Swyddog Technoleg Gynorthwyol i sicrhau bod y synwyryddion Epilepsi yn addas i'r pwrpas.

Rydym yn cysylltu ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol i gefnogi anghenion asesedig fel Therapyddion Galwedigaethol, Ffisiotherapyddion o ran unrhyw gymhorthion neu addasiadau bach. Bydd y staff yn cael hyfforddiant ychwanegol ar gyfer unrhyw offer newydd.

**Trefniadau goruchwylio**
Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gymryd rhan mewn sesiynau goruchwylio chwarterol. Mae'n ofynnol i bob aelod o staff gymryd rhan mewn sesiynau gwerthuso blynyddol gyda Rheolwr y Cartref Gofal Cofrestredig.
Nod goruchwylio yw helpu staff i fyfyrio ar eu harfer a gwneud yn siŵr bod eu cymhwysedd proffesiynol yn cael ei gynnal, mae hyn yn cynnwys adborth am eu perfformiad wrth ddarparu cymorth a monitro cynnydd yn eu dysgu a’u datblygiad eu hunain.

**Hyfforddi staff**

Mae’r anghenion hyfforddi yn cael eu hasesu ar gyfer pob aelod o'r staff yn dibynnu ar yr amrywiaeth o anghenion gofal sydd gan y bobl benodol maen nhw'n eu cefnogi. Gall hyn gynnwys y rhestr ganlynol:

- Rheoli Ymddygiad Cadarnhaol
- Cymorth Ymddygiad Cadarnhaol
- Anhwylder Sbectrwm Awtistig
- Meddyginiaeth

- Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu
- Cymorth Cyntaf
- Diogelu
- DoLs / Gallu Meddyliol
- Bwndel croen
- Rheoli Haint
- Ymwybyddiaeth Diogelwch Tân
- Hylendid bwyd
- Cyfathrebu Cynhwysol
- GDPR
- Cwynion
- Iechyd a Diogelwch

Nod ein rhaglen hyfforddi staff yw sicrhau eich bod yn cael eich cefnogi gan staff medrus a chymwysedig, sy'n meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau i fodloni eich anghenion cymorth penodol a'ch hoff ddewisiadau, a'ch helpu i symud ymlaen yn eich bywyd. Rheolir y rhaglen gan y Tîm Dysgu a Datblygu, sy'n gweithio gyda rheolwyr gweithredol i sicrhau bod anghenion dysgu a datblygu'r holl staff a rheolwyr yn cael eu diwallu
Mae hyn yn cynnwys:-

**Sefydlu** - Pob gweithiwr newydd yn cymryd rhan mewn rhaglen sefydlu. Ar gyfer staff cymorth a rheolwyr, mae hyn yn cwrdd â'r safonau sefydlu a nodwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r cyfnod sefydlu hwn yn cynnwys cyfuniad o fynychu cyrsiau, hyfforddiant 'yn y gwaith' a chwblhau cyrsiau ar-lein.

**Hyfforddiant penodol sy'n gysylltiedig â chymorth unigol** - Mae'n rhaid i'r holl staff ddilyn rhaglen o hyfforddiant ychwanegol a gynlluniwyd i roi'r wybodaeth a'r sgiliau penodol angenrheidiol iddynt i ddarparu cymorth effeithiol a diogel sy'n canolbwyntio ar y person. Mae hyn yn seiliedig ar eich anghenion cymorth personol, ond gall gynnwys amrywiaeth eang o gyrsiau fel:

- Rheoli Epilepsi
- Sgiliau Cymraeg
- PICA
- Dewis iaith
- Polydipsia


*'Mae'r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' f8*

**Hyfforddiant Diweddaru** - Mae'n rhaid i rai mathau o hyfforddiant gael eu diweddaru'n rheolaidd e.e. Diogelu, Meddyginiaeth, Cymorth Cyntaf, Diogelu Data/GDPR, Iechyd a Diogelwch, Symud a Thrin.

Mae rhaglen flynyddol o gyrsiau y gall staff eu mynychu neu gyrsiau ar-lein y gallant eu cwblhau, i sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â'u gofynion hyfforddi.

Mae'r cyrsiau'n cael eu darparu gan gyfuniad o reolwyr mewnol sydd â chymwysterau hyfforddi ychwanegol (e.e. symud a thrin) PBM, gweithwyr proffesiynol iechyd (e.e. SALT) neu gan hyfforddwyr allanol cymeradwy eraill (e.e. Cymorth Cyntaf).

Mae gennym ein gwefan ddysgu ar-lein ein hun, 'Time to Learn', ac ar hyn o bryd rydym yn llunio portffolio o gyrsiau ac adnoddau dysgu y gall staff eu cyrchu ar unrhyw adeg i gefnogi eu dysgu a'u datblygu.

**Cymwysterau -** Mae gennym raglen gynhwysfawr ar gyfer staff cymorth a rheolwyr i gyflawni'r cymwysterau galwedigaethol a argymhellir ar gyfer eu swydd, yn unol â Fframwaith Cymwysterau 'Gofal Cymdeithasol Cymru'. Rydym hefyd yn gweithio mewn partneriaeth â cholegau lleol i gynnig y cymwysterau hyn i staff, yn enwedig i'r rheini ar lefelau uwch.

**Cynllunio Datblygu Personol a Datblygiad Proffesiynol Parhaus** - Mae Cynllun Datblygu Personol yr holl staff yn cael ei drafod a'i gofnodi yn ystod eu Goruchwyliaeth lle mae eu hanghenion dysgu a datblygu a'u dyheadau yn cael eu nodi a'u cofnodi.

Mae cynnydd yn nysgu a datblygiad staff yn cael ei fonitro trwy'r broses oruchwylio ac arfarnu, gyda'r Cynllun Datblygu Personol yn cael ei adolygu a'i ddiweddaru ym mhob sesiwn oruchwylio.

Mae'r holl gyrsiau hyfforddi a fynychwyd a chyrsiau ar-lein a gwblhawyd yn cael eu cofnodi gan y tîm Dysgu a Datblygu a rhennir y wybodaeth hon gyda Rheolwr y Cartref Gofal Cofrestredig a'r Rheolwr Ardal.

**Lower Lodge**
**Nifer yr ystafelloedd sengl ac a rennir**

Mae gennym 3 Ystafell wely gyda gwelyau dwbl difán, (mae 2 yn welyau "Dodrefn gwydn" arbenigol).
Lleolir **Ystafell wely 1** ar y llawr gwaelod (13.1m)
Lleolir **Ystafell wely 2** ar y llawr gwaelod hefyd (15.2m)
Lleolir **Ystafell wely 3** ar y llawr 1af (15.6m).
Mae cypyrddau dillad a chist o ddroriau ym mhob ystafell ac mae 1 teledu cludadwy ar

gael.
Mae cadair freichiau ym mhob ystafell ar gyfer unrhyw ymwelwyr sydd eisiau rhywfaint o breifatrwydd wrth ymweld â'u perthynas.
Ceir uned ymolchi ym mhob ystafell hefyd.
Nid oes gennym ystafelloedd gwely gyda chyfleusterau en-suite.

**Nifer y mannau bwyta** - Mae gennym un man bwyta â bwrdd bwyta a 4 cadair. (7.8m)
**Nifer y mannau cymunol -** Mae gennym 3 man cymunol: Lolfa (18m), Cegin (12.1m) ac Ystafell Fwyta (7.8m).
**Cyfleusterau bathio arbenigol** - Mae gennym ystafell wlyb ar y llawr gwaelod gyda thoiled ychwanegol ac uned ymolchi (1500m). I fyny'r grisiau mae gennym 1 ystafell ymolchi fawr gyda bath sefydlog (10.7m).
**Offer arbenigol** - Mae gennym synwyryddion gwely ar gyfer epilepsi a synhwyrydd larwm ar y drws ffrynt.
**Y trefniadau sicrwydd sydd yn eu lle a'r defnydd o CCTV -** Mae gennym system sicrwydd/larwm tresmaswyr yn ei lle sydd wedi'i chysylltu â'r canolfan rheoli.
Mae Camerâu CCTV wedi'u gosod ar wyneb blaen ac ochr yr eiddo. Mae goleuadau PIR wedi'u gosod hefyd.
**Mynediad i'r mannau a'r cyfleusterau tu allan yn y gwasanaeth hwn -** Mae'r man tu allan yn hygyrch i bawb sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Seibiant.
Mae gennym ramp bach o flaen yr adeilad. Er nad ydym yn cefnogi unrhyw un sydd ag anableddau corfforol, rydym yn cefnogi pobl ag Anhwylderau Sbectrwm Awtistig sy'n cael problemau gyda chanfyddiad o ddyfnder ac mae hwn yn ddewis mwy addas na grisiau.

## Disgrifiad o Woodlands

Mae Adeilad Woodlands yn hygyrch i gadeiriau olwyn ar un lefel. Mae ynddo brif ystafell fawr y gellir ei rhannu'n ddau gyda rhannwr ystafell plygadwy.

Mae yno doiled ac ystafell wlyb gyda chawod.

Mae'r adeilad hefyd yn cynnwys cegin sy'n hygyrch i staff a phobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Mae'r adeilad yn ymagor i'r ardd gwrt a'r maes parcio.

Mae terfynau'r meddiannau wedi'u ffensio er diogelwch a sicrwydd pobl.

### Ein pwrpas yw ‘Cefnogi Pobl i fyw'r bywydau maen nhw'n eu dewis’

Mae’r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn sefydliad seiliedig ar aelodaeth gyda 196 o aelodau; ymhlith yr aelodau hyn, mae:

- 46 o bobl a gefnogwn
- 19 o aelodau teulu
- 27 o bobl a gyflogwn
- 99 o bobl annibynnol.
- 5 asiantaeth broffesiynol

Mae'r bobl hyn yn ethol ein Pwyllgor Rheoli yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.
Mae gan ein Pwyllgor Rheoli le i 12 aelod:

- 1 yn Denant, 1 yn aelod o'r teulu; Mae 6 yn unigolion annibynnol, mae gennym ni 1 swydd wag ar gyfer aelod o'r teulu; 1 swydd wag ar gyfer aelod o staff a 2 le gwag i Denantiaid.



- Ein Cadeirydd yw **Stuart Harper.**

Mae ein Pwyllgor Rheoli yn cysylltu â'r isgrwpiau *Tenants Lives* a *Managing the Consortium* i gasglu barnau a gwybodaeth o bob rhan o'r sefydliad ynglŷn ag ansawdd ein gwasanaeth. Mae gennym hefyd Bwyllgor Iechyd a Diogelwch sy'n cyfarfod bob chwarter.




Mae ein staff a'n rheolwyr gweithredu yn casglu'r wybodaeth perfformiad ganlynol:

- Deilliannau personol cytunedig a chynlluniau cymorth sylfaenol ar gyfer pob person a gefnogwn.
- Yr holl achosion, pryderon, damweiniau, cwynion, achwyniadau a hysbysiadau, gyda manylion am sut cafodd y rhain eu hadrodd, sut y gweithredwyd arnynt a sut cawsant eu datrys.
- Y cymwysterau a'r hyfforddiant sy'n ofynnol gan bob aelod o'r staff a'r dyddiadau pan gafodd y rhain eu cyflawni.
- Y cyflenwad o oriau cymorth o gymharu â'r oriau a gomisiynwyd ar gyfer, neu a brynwyd gan, bob person.
- Nifer yr oriau staff sydd ar gael i fodloni'r oriau cymorth gofynnol, lefelau absenoldeb a'r gyfradd drosiant yn cynnwys y rhesymau pam mae staff yn gadael.
- Y camau rheoli sy'n cael eu cymryd gan Reolwr Cartrefi Gofal Cofrestredig ac Uwch Reolwr Ardal i fynd i'r afael â materion a gwella'r gwasanaeth.Caiff y wybodaeth hon ei hasesu yn erbyn meini prawf Coch, Ambr, Gwyrdd cytunedig sy'n ein galluogi i:
    - ddathlu a nodi ble mae gwasanaethau'n perfformio'n dda i bobl
    - nodi pa faterion mae angen mynd i'r afael â nhw ac nad ydynt yn cael eu datrys
    - gweithredu lle mae angen gweld gwelliant.


*'Mae'r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' f8*

Mae unigolion sy'n byw yn Nhal Y Wern yn dweud wrthym beth yw eu barn am eu bywydau a chefnogaeth trwy ein Hasesiad Lles Personol.

Rydym yn casglu adborth gan staff am eu barn am eu cyflogaeth trwy ein Harolwg Cyflogeion Blynyddol. Mae ein Comisiynwyr hefyd yn dweud wrthym beth yw eu barn am ein gwasanaethau trwy Adolygiadau Gwasanaeth.

Rheolwyr Cymorth Personol / Rheolwyr Cartrefi Gofal Cofrestredig Cynhelir Fforymau a Fforymau Staff Ategol bob 3 mis. Bydd adroddiadau a chynlluniau o'r cyfarfodydd hyn yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Rheoli.

**Gwneud cwynion**

Gellir gwneud cwynion yn y ffyrdd canlynol:




- Heblaw am y Rheolwr Cartref Gofal Cofrestredig, gellir gwneud cwyn i unrhyw aelod o staff y Consortiwm Bywydau Cymunedol. Mae hyn yn golygu y gall yr unigolyn siarad â pha rai bynnag o'r aelodau staff maen nhw'n teimlo'n fwyaf cyffyrddus gyda nhw.
- Gwneud cwyn ar lafar, naill ai wyneb yn wyneb neu dros y ffôn.
- Gall yr unigolyn wneud cwyn mewn ysgrifen, trwy lythyr, e-bost neu destun neges. Gallwch anfon eich cwyn mewn e-bost at complaints@communitylives.org neu drwy destun neges i 07814779935.

Bydd y Rheolwr Cartref Gofal Cofrestredig yn gweithio gyda'r unigolyn i ddatrys eu cwyn. Byddan nhw'n gwneud hyn o fewn 14 diwrnod, neu 28 diwrnod yn unol â'r cytundeb. Byddan nhw'n cytuno â'r achwynydd ar gofnod ysgrifenedig o sut cafodd y gwyn ei datrys.

Os yw'r unigolyn eisiau i rywun sy'n annibynnol oddi wrth ei wasanaeth ddatrys y gwyn, yna gallwn ofyn i swyddog ymchwilio drefnu hyn. Byddan nhw'n cytuno ar adroddiad gyda nhw ynglŷn â'r ymchwiliad a beth maen nhw wedi ei ddarganfod. Gallai hyn gymryd hyd at 35 diwrnod.

Os bydd hyn yn cymryd mwy o amser, byddan nhw'n rhoi gwybod i'r achwynydd.
Byddan nhw hefyd yn gofyn i'r **Adran Gwasanaethau Cymdeithasol** ddatrys eich cwyn:

- Gallwch gysylltu â thîm cwynion Dinas a Sir Abertawe ar 01792 637345, neu drwy anfon e-bost at complaints@swansea.gov.uk.
- Gallwch gysylltu â thîm cwynion Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot ar

01639 763445, neu drwy anfon e-bost at complaints@npt.gov.uk

Gallwch hefyd gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru drwy ffonio 0300 790 0203 neu fynd i'w gwefan https://www.ombwdsmon.cymru

Bydd Corff Llais y Dinesydd (Llais) yn cynrychioli lleisiau a barn pobl Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. *nptandswansea.enquiries@llaiscymru.org*


*'Mae'r Consortiwm Bywydau Cymunedol yn cael ei reoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a'i gomisiynu gan Gyngor Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Gallem rannu gwybodaeth am ein gwasanaethau a'r bobl a gefnogwn at ddibenion ansawdd a rheoleiddio' f8*